

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Gwenfyl Williams (Llansannan) yng nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i theulu, gan weddio y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Megan Evans a Ceinlys Jones (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd; Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari; Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Rhuthun; a Gwyneth Rawson yn Ysbyty Llandudno. Hyderwn y byddant yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu ac y byddant yn teimlo'n ddigon da i gael dychwelyd yn ôl adref yn fuan iawn. Bu i Catrin Jones (Llansannan) dreulio bron i wythnos yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd ond mae'n dda clywed iddi gael dod oddi yno erbyn hyn, fel ag y cafodd Bob Lloyd (Llanfair) o Ysbyty Llandudno. Hyderwn y bydd y ddau yn parhau i gryfhau bob dydd, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal –Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Preswylfa, Y Rhyl); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); Miss W J Roberts a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanellwly). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt
- Llongyfarchiadau i Bethan Jones (Groes) a Nicolas Fournet o Ffrainc ar eu priodas, ac i Mari Wyn Jones (Henllan) a Danny Jones o Gilgwri ar eu dyweddiad. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

I ddod

- **WORD ALIVE** – Gwyliu Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliu Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.00 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **KESWICK – LLANDUDNO: WYTHNOS Y BEIBL** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ (Mai 1af – 4ydd). **Cyfarfod Cymraeg** nos Wener am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Mai 2il. Mwy o fanylion i ddilyn.

Darllenid Wythnos Nesaf

Nehemeia 1:8-11 (BCND tud.437 / BCN tud.400)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Ebrill 2018

Darllenid y Dydd

Mathew 28:1-7

(BCND tud.36 / BCN tud.33)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi fel y dywedodd y byddai...' Dyma'r geiriau chwyldroadol a glywyd ddeuddydd wedi'r croeshoeliad ac sy'n parhau'n sylfaen i ffydd, cysur a gobaith Cristnogion ar hyd a lled y byd. Wrth i ni ddod at ein gilydd dros wasanaethau Pasg 2018 ym Mro Aled, gweddiwn y bydd y Crist byw yn teyrnasu ar bob rhan o'n bywydau. A gofynnwn am gymorth yr Ysbryd i foli mewn rhyfeddod a thrysorïr newydd da fod marw ac atgyfodi Iesu yn golygu fod gennym 'fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni.' (Rhufeiniaid 8:37)

Wn i ddim os ydych chi'n bobl sy'n tueddu i ddefnyddio dywediadau sydd wedi cael eu gwneud yn boblogaidd gan gymeriadau teledu? Yn y Gymraeg, un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yw bloedd rwystredig Mr Picton, rheolwr blin y gyfres C'Mon Midffild: "ddudish i do!" Mae'r geiriau hyn yn gallu awgrymu amrywiaeth o ymatebion gwahanol yn dibynnu ar y ffordd y maent yn cael eu hyngan. Gallant fod yn llawn hunan gyfiawnder hyll wrth i rywun gael ei brofi'n gywir. Neu ar y llaw arall gallant amlygu digalondid anobeithiol wrth i'r ofnau gwaethaf gael eu gwireddu. Ond gwedd wahanol a welwn ar fore Sul yr atgyfodiad. Does yna neb o'r disgyblion yn dweud "ddudish i do" wrth ei gilydd. Er bod Iesu wedi dysgu droeon y byddai'n rhaid iddo fynd i Jerwsalem i ddiodef ac yna atgyfodi ar y trydydd dydd, mae dilynwyr Crist, yn ddynion a merched, mewn braw. Yr angel sy'n atgoffa'r merched o'r hyn a ddywedodd Crist ynglŷn â'i atgyfodiad, a hynny wrth iddo'u cymell i beidio ofni, ac i fynd a datgan y newyddion da wrth y disgyblion wedi iddynt weld y bedd gwag. (Mathew 28:5-7)

Gallwn gydymdeimlo'n llwyr â dryswch ac ofn y merched yn ystod y darganfyddiad dramatig hwn. Wrth gwrs eu bod mewn penbleth yn ceisio deall beth oedd ystyr y cyfan yr oeddynt wedi'i weld a'i glywed. Ond roedd Iesu wedi bod yn eu paratoi yn barod, fel ag yr oedd gair Duw yn yr holl Ysgrhythurau (Luc 24:25-27)

Wrth i ni fyfyrto ar fuddugoliaeth Iesu dros farwolaeth a phechod heddiw, faint ohonom ni'n sy'n crefu am arweiniad Ysbryd Duw i ni allu byw 'yn ôl beth dŷn ni'n ei gredu, dim yn ôl beth dŷn ni'n ei weld.'? (2 Cor. 5:7 Beibl.net) Gallwn ddweud fod y Beibl yn llusern i'm troed ac yn llewyrch i'm llwybr, ond heb i ni ei ddarllen, ac ymateb i lais y Bugail trwy roi ein hunain iddo, ar goll y byddwn o hyd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun – Iau
2^{il} – 5^{ed} ➤ **Llanw** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweili gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian. Y prif siaradwr bore Mawrth, Mercher a Iau fydd y Parch. Rhys Llwyd, Caernarfon, a bydd Owain a Joseff Edwards, Mike Adams, Gwilym Tudur a Geraint Morse yn arwain oedfaon gyda'r hwyr. Yn ogystal, ceir seminarau gan Alun Tudur, Dyfan Graves a Marc Owen heb sôn am y gweithgareddau ar gyfer y plant a'r ieuencid, a'r gweithgareddau hwyl sydd wedi eu trefnu. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fanylion llawn y gweithgareddau.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Ni chynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan, ond yn hytrach, bydd cyfle inni fynd draw i Brestatyn i ŵyl **'Word Alive'** lle cawn ymuno mewn oedfa o fawl yn y babell fawr ar safle Pontins Prestatyn Sands, LL19 7LA fydd yn cychwyn am 6.30 yr hwyr. Awgrymwn i bawb gyfarfod ym maes parcio Pontins am 6.00 fel y gallwn fynd i brynu tocynnau (pris: £10.00). Hugh Palmer fydd yn pregethu yn yr oedfa y noson honno. Os oes unrhyw un yn dymuno cael lifft, neu bod modd i chi roi lifft i rywun arall, plis cysylltwch â Mair. Mae mwy o wybodaeth i gael am weithgareddau'r wythnos (7^{fed} – 12^{fed}) ar y wefan: wordaliveevent.org.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Peniel yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1^{af} ➤ Cynhelir gwasanaeth dan ofal y bobl ifanc i'r plant yng Nghefn Berain am 10.00.
- Cynhelir Gwasanaeth y Pasg yn Llanefydd **am 10.30** gyda phlant a ieuencid y Capel yn cymryd rhan, a sgwrs gan Sarah Dafydd. Yn ystod y gwasanaeth, gwneir casgliad arbennig at apêl efeillio toiled. Ar ddiwedd y gwasanaeth, bydd paned a chacen i bawb a chyfle i brynu nwyddau o stondin Masnach Deg dan ofal plant yr Ysgol Sul. Byddwn hefyd yn ddiolchgar o dderbyn nwyddau tuag at y Banc Bwyd yn Ninbych.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deulu i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.